

## ROBERTS, WILLIAM RHYS (1858 - 1929), athro Groeg

**Enw:** William Rhys Roberts  
**Dyddiad geni:** 1858  
**Dyddiad marw:** 1929  
**Rhiant:** J. Gwilym Roberts  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** athro Groeg  
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Ysgolheictod ac leithoedd  
**Awdur:** Thomas Hudson-Williams

Ganwyd 11 Gorffennaf 1858 yn Wimbledon, mab y Parch. J. Gwilym Roberts. Cafodd ei addysg yn y City of London School a Choleg y Brenin, Caergrawnt, lle'r enillodd amryw o brif wobrau clasurol y brifysgol; bu'n gymrawd o'r coleg hwn, 1882-8. Bu'n athro Groeg yng Ngholeg y Gogledd, Bangor, 1884-1904, ac athro'r clasuron ym Mhrifysgol Leeds, 1904-22. Hoffai ddyfynnu diarhebion Cymraeg yn ei ddarllithiau ym Mangor. Ystyrid ef yn awdurdod ar hanes beirniadaeth lenyddol y Groegiaid, a chyhoeddodd rai o weithiau'r beirniad (Longinos, Dionysios o Halicarnassos, Demetrios) gydag esboniad. Yr oedd yn Litt.D. (Caergrawnt); derbyniodd hefyd LL.D. (S. Andrews) a D.Litt. Cymru (1921), 'er anrhynedd.' Bu farw yn Peacehaven, 30 Hydref 1929. Yr oedd yn awdur tareithiog; heblaw'r argraffiadau o'r beirniad lenyddol Groegaid a enwyd, gwnaeth gyfieithiad o Aristotlys ar retoreg, a llyfr ar hanes Boeotia; cyhoeddodd hefyd lawer o bamffledau ar broblemau dysgu'r clasuron yn y prifysgolion, ac ar addysg yn gyffredinol.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Thomas Hudson-Williams**, (1873)

### Ffynonellau

*Who was who?*  
adnabyddiaeth bersonol  
Venn, *Alumni Cantabrigienses*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [64081997](#)  
Wikidata: [Q18911861](#)  
**Dyddiad cyhoeddi:** 1953  
**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Hudson-Williams, T., (1953). ROBERTS, WILLIAM RHYS (1858 - 1929), athro Groeg. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-RHY-1858>

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government